**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Gorffennaf 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)    Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd G Hughes    Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd J Smith    Y Cynghorydd L A Tomkinson

**Zoom**

Y Cynghorydd W Lewis    Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd D Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**

Y Cynghorydd W Hughes

**Zoom**

Y Cynghorydd G Caple    Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd A Rogers

## 17 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Grehan a R Williams.

## 18 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 19 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998

**20 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**21 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**22 CAIS RHIF: 22/0492**

**Ardal barcio (ôl-weithredol) a mynediad cwrb isel dros lwybr troed cyhoeddus. 36 HEOL ABER-RHONDDA, PORTH, CF39 0BB**

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu. Bwriad hyn oedd ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar y briffordd.

**23 CAIS RHIF: 22/0263**

**Trosi'r islawr yn fflat stiwdio hunangynhwysol 2 SCRANTON VILLAS, STRYD FAWR, CYMER, PORTH, CF39 9EU.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Andrew Evans (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig oherwydd materion sy'n ymwneud â diogelwch y priffyrdd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio ei gais i'w Pwyllgor ac, yn

dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn nad oedd safon y llety'n ddigon da. O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**24 CAIS RHIF: 22/0044**

**Cyfleuster parcio ceir ar dir gyferbyn ag 11-16 Heol Brithweunydd (Ôl-weithredol). TIR YN HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Dean Rees (Cynrychiolydd yr Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Hughes, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â materion parcio ar y stryd sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth un o drigolion Heol Brithweunydd, yn amlygu pryderon ynghylch parcio ar safle'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**25 CAIS RHIF: 22/0597**

**Cynnig i adeiladu estyniad ac ehangu eiddo presennol Sigma 3 (Kitchens) Ltd, yn ogystal â gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd cynllun tirlunio ac asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd (EIA) diwygiedig ar 20 Mehefin 2022) SIGMA 3 KITCHENS LTD, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor James Scarborough (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod

y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**26 CAIS RHIF: 21/1070**

**Adnewyddu ac adfer tŷ fferm (derbyniwyd ffin llinell goch ac Adroddiad Strwythurol wedi'i ddiweddaru ar 01/04/22) FFERM CYNLAS, FFORDD Y RHIGOS, RHIGOS, ABERDÂR.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Callum Summerill (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**27 CAIS RHIF: 21/0747**

**Amrywio Amod 1 yng nghais cynllunio rhif: 17/0195/13 i ganiatáu cyfnod o 3 blynedd arall ar gyfer cyflwyno materion sydd wedi'u cadw'n ôl (Derbyniwyd yr Adolygiad Ecolegol ar 24/03/22) TIR Y TU ÔL I DERAS SIÔN, CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0AT.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau cytundeb adran 106 sy'n gofyn am:

- dim llai na 10% o'r anheddau fel unedau cost isel tair llofft ar ffurf tai; a
- cynllun rheoli mannau agored cyhoeddus a oedd yn cynnwys sefydlu, dylunio a rheoli ardal lliniaru ecolegol o safbwynt hirdymor.

**28 CAIS RHIF: 21/1283**

**Newid defnydd y llawr gwaelod o Ddosbarth Defnydd A2 (Swyddfa Fetio) i Ddosbarth Defnydd A3 (Siop Gludfwyd) a gosod ffliw echdynnu ar gefn yr eiddo ar gyfer y defnydd newydd (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 01/11/21) (Derbyniwyd yr Asesiad Sŵn ac Arogl ar 01/02/22) LADBROKES PLC, 45 HEOL YNYS-HIR, YNYS-HIR,**

**PORTH, CF39 0EL.**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan Nassir Manan Mahmood a oedd yn cefnogi'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth hirfaith **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn galluogi swyddogion i gasglu gwybodaeth bellach mewn perthynas ag adran Iechyd y Cyhoedd o ran yr effaith ar amwynder eiddo sydd y tu ôl i'r datblygiad arfaethedig.

**29 CAIS RHIF: 21/1641**

**Ailadeiladu estyniad i'r cefn, gosod drws newydd yn y fynedfa, codi uchder y crib, creu ardal iard gaeëdig a gwaith adnewyddu cyffredinol. HEN DAFARN Y BUTE ARMS, FFORDD LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 9DP.**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys dau lythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan yr Asiant (ar ran Perchennog yr eiddo sydd ynghlwm) a gan Berchennog yr eiddo sydd ynghlwm (Rhif 3 a Rhif 5), yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**30 CAIS RHIF: 22/0138**

**Newid defnydd y llawr gwaelod o Ddosbarth Defnydd A2 (Swyddfa Fetio) i Ddosbarth Defnydd A3 (Siop Gludfwyd) a gosod ffliw echdynnu ar gefn yr eiddo ar gyfer y defnydd newydd (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 01/11/21) (Derbyniwyd yr Asesiad Sŵn ac Arogl ar 01/02/22) LADBROKES PLC, 45 HEOL YNYS-HIR, YNYS-HIR, PORTH, CF39 0EL.**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan Nassir Manan Mahmood yn cefnogi'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn galluogi swyddogion i gasglu gwybodaeth bellach mewn perthynas ag adran Iechyd y Cyhoedd o ran yr effaith ar amwynder eiddo sydd y tu ôl i'r datblygiad arfaethedig.

**31 CAIS RHIF: 22/0220**

**Diwygiad ansylweddol i gais 18/0204/10: Deunyddiau diwygiedig i wynebau. THE DRAGON INN (HEN DAFARN THE BRIDGE INN) A RHIF 1 STRYD SARON, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1TF.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r diwygiad ansylweddol.

**32 CAIS RHIF: 22/0413**

**Bloc ystafelloedd dosbarth 2 lawr i'w adeiladu yn rhan o Gam 1, gyda 4 ystafell ddosbarth ar y llawr isaf, a Cham 2 sy'n cynnwys 4 ystafell ddosbarth ar y llawr cyntaf, a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Cynllun Teithio a Datganiad Trafnidiaeth Diwygiedig ar 12/4/22, derbyniwyd Asesiad Risg Mwyngloddio Glo (CMRA) ar 15/6/22) YSGOL GYFUN Y PANT, HEOL Y BONT-FAEN, TONYSGUBORIAU, PONT-Y-CLUN, CF72 8YQ.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**33 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 27/06/2022 –08/07/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**